

# Castell Caerdydd

## Ymweliad Addysgol Safonol (Heb y Ganolfan Addysg)

### Lleoliad

Bydd eich ymweliad yn cynnwys pob ardal o Diroedd Castell Caerdydd a'r hyn sy'n cyfateb i ymweliad "Castell" ar ein gwefan gyffredinol, gyda'r opsiwn o ychwanegu taith dywys heb unrhyw gost ychwanegol (grwpiau ysgolion domestig yn unig, yn ymweld yn ystod y tymor) . Gallwch ychwanegu ymweliad safonol â'r Ganolfan Addysg heb unrhyw gost ychwanegol (yn amodol ar argaeledd).

### Disgrifiad

**Mae Ymweliad Addysgol Safonol (Heb Sesiwn yn y Ganolfan Addysg) â'r Castell yn Cynnwys y Canlynol:**

- **"Ymweliadau Castell"** – mae'r rhain yn deithiau hunan-dywys sy'n ddelfrydol ar gyfer y rhai sydd am i'r disgyblion gael blas ar y Castell, ond a all fod ag amser cyfyngedig i wneud hynny. Mae hefyd yn apelio at rai grwpiau gyda phlant iau a rhai grwpiau anghenion arbennig. Bydd y grwpiau yn gallu ymweld â detholiad o ystafelloedd yn eu hamser eu hunain. Bydd Tywyswyr Croeso Ymwelwyr yn bresennol mewn rhai o'r ystafelloedd a gellir defnyddio Trywydd yr Anifeiliaid neu Drywydd i'r Teulu i ddarparu trywydd o amgylch yr ystafelloedd hyn. Dylech fod yn ymwybodol y bydd grwpiau ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn ymweld â'r ystafelloedd ar yr un pryd, a gall yr ystafelloedd fod yn brysur iawn ar adegau.

### neu

- **"Teithiau Tywys"** Caiff teithiau eu harwain gan dywysydd a fydd yn dangos detholiad o ystafelloedd mwyaf godidog y Castell i ddisgyblion. Dyma'r opsiwn rydym yn ei argymhell i grwpiau ysgol gan fod y tywysyddion â'r wybodaeth a'r profiad i nodi ffeithiau diddorol am yr ystafelloedd a thrafod yr hanes cefndirol, gan gynnwys rhoi gwybodaeth am deulu Bute a oedd yn berchen Castell Caerdydd rhwng 1766-1947 ac a gafodd gymaint o effaith ar y Castell a'r ddinas yn oes Fictoria. Mantais y Daith yw mai'ch grŵp chi'n unig fydd yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd gan alluogi disgyblion i ganolbwyntio ar y wybodaeth a roddir.

### Taith Glywedol o'r Tiroedd

Gellir casglu'r daith glywedol o'r Ganolfan Ddehongli (yr adeilad modern ger y brif fynedfa). Bydd pob disgybl yn cael set llaw ac yn teipio'r rhifau ar y byrddau gwybodaeth o amgylch y safle i glywed y sylwebaeth.

Mae gennym ddwy fersiwn o'r daith glywedol:

- Taith Glywedol i Blant – ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd adroddwr yn cwrdd â chymeriadau ffuglenol o orffennol y Castell ac yn siarad â nhw am yr hyn maent yn ei wneud mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y safle. Er enghraifft, yn y Gorthwr Normanaidd, bydd yr adroddwr yn cwrdd â saethydd canoloesol sy'n sôn wrtho am ei sgiliau fel saethydd, y noson y daeth Ifor Bach i'r Castell a swydd y Ffermwr Gong. Datblygir y cymeriadau hyn ymhellach yn y Llwybr Teuluoedd ar y Lawntiau sydd ar gael i'r ysgolion a hefyd ar adran teithio mewn amser ar ein gwefan.
- Taith Glywedol i Oedolion - ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn cael ei hadrodd gan Huw Edwards (ieithoedd eraill ar gael). Mae'r daith hon yn rhoi dealltwriaeth fanwl o'r safle a'i hanes. Bydd disgyblion sy'n astudio'r Cyfnod Canoloesol yn CA3 yn cael budd o wrando ar adrannau perthnasol y daith hon.

Mae'r Daith Glywedol yn cwmpasu'r ardaloedd canlynol:

- Y Bylchfuriau
- Porth y Gogledd
- Y Gorthwr
- Y Tŷ o'r Tu Allan (a'i ddatblygiad)
- Y Tŵr Du
- Lawnt y Castell
- Y Trebuchet
- Llochesau Ail Ryfel Byd

Nodwch, ers i'r daith glywedol gael ei chyflwyno, mae'r Llochesi Rhyfel wedi'u cyflwyno ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y teithiau ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio cyflwyno deunydd ychwanegol ar y daith glywedol yn fuan.

## Hyd

Bydd taith dywys o'r Castell yn para tua 50 munud. Gall "Ymweliad Castell" â'r Tŷ gymryd rhwng 15 a 25 munud, neu'n hirach os gwneir astudiaeth fanwl.

Dylech ganiatáu tua 45-60 munud i wneud y Daith Glywedol gyfan i blant (hirach ar gyfer y daith i oedolion). Efallai y bydd grwpiau ond am wrando ar rannau o'r daith sy'n berthnasol i'w hystod astudio.

Mae grwpiau fel arfer yn treulio tua 3 awr yma os nad oes angen sesiwn yn y Ganolfan Addysg neu'r gweithdy addysgol, er gallai ymweliadau fod yn fyrrach os bydd angen.

## Canlyniadau Dysgu Allweddol

Oherwydd amrywiaeth eang y grwpiau blwyddyn a'r pynciau y gellir eu hastudio gan grwpiau ar ymweliad safonol, cysylltwch â'r Swyddog Addysg, Elizabeth Stevens ar 029 20 87 8110 neu e-bostiwch [ESTevens@caerdydd.gov.uk](mailto:ESTevens@caerdydd.gov.uk) neu [education@cardiffcastle.com](mailto:education@cardiffcastle.com) i drafod canlyniadau dysgu posibl.

## Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

### ◆ Y Cyfnod Sylfaenol (Cymru)

- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

### ◆ Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)

- Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw

### ◆ Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)

- Bywyd pob dydd pobl sy'n byw yn ystod yr Oes Haearn, Celtiaid neu'r Rhufeiniaid
- Bywyd pobl dydd pobl sy'n byw yn Oes y Tywysogion neu yn ystod cyfnod y Tuduriaid neu'r Stiwardiaid
- Newidiadau i fywydau pob dydd pobl yn yr ardal leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg
- Y gwahaniaeth ym mywydau bob dydd pobl mewn dau gyfnod gwahanol o'r ugeinfed ganrif

### ◆ Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)

- Yr Ymerodraeth Rufeinig a'i heffaith ar Brydain
- Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066 (Lloegr)

### ◆ Cyfnod Allweddol 3 (Cymru)

- Sut y gwnaeth dyfodiad y Normanaidd effeithio ar Gymru a Phrydain rhwng 1000 a 1500 (Hanes)

### ◆ Cyfnod Allweddol 3 (Lloegr)

- Datblygiad yr Eglwys, y wladwriaeth a chymdeithas ym Mhrydain Ganoloesol 1066-1509 (Lloegr)

Mae croeso i chi ymweld â'r Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig yn llawr isaf y Ganolfan Ddehongli. Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Mae gennym ardal "Chwarae" yn y Ganolfan Ddehongli gyda theatr bypedau a gwisgoedd y gellir eu gwisgo. Mae hon ar gael ar lawr cyntaf y Ganolfan Ddehongli. Mae croeso i chi ddefnyddio'r eitemau hyn. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallai'r eitemau gael eu rhoi yn ôl yn daclus ar ôl eu defnyddio.

Mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle fel arfer ond ni allwn warantu hyn bob amser.

I gael rhagor o wybodaeth am ddewis Castell Caerdydd o weithgareddau addysgol, i gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch a manylion archebu, edrychwch ar y tudalennau addysgol ar ein gwefan - [www.castell-caerdydd.com](http://www.castell-caerdydd.com)